

Diwygio'r cwricwlwm

Diweddarwyd 05 Ebrill 2016

Caiff cwricwlwm newydd i Gymru ei ddatblygu ar y cyd a gweithwyr proffesiynol ym myd addysg ar draws Cymru. Y nod yw sicrhau y bydd ar gael i leoliadau ac ysgolion erbyn mis Medi 2018.

Bydd gan ysgolion beth hyblygrwydd o safbwynt pennu sut a phryd y byddant yn cychwyn addysgu'r cwricwlwm newydd. Ein huchelgais yw sicrhau y bydd pob lleoliad ac ysgol yn defnyddio'r cwricwlwm newydd ar gyfer ategu eu haddysgu a'u dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 mlwydd oed erbyn 2021. Bydd [y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg](#) yn cyfarparu gweithwyr proffesiynol addysgol i ddarparu'r cwricwlwm newydd.

y pedwar diben

Bydd y pedwar diben wrth wraidd ein cwricwlwm newydd. Byddant yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ynghylch y cynnwys a'r profiadau a gaiff eu datblygu fel rhan o'r cwricwlwm er mwyn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Nodweddion allweddol

Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys:

- chwe maes Dysgu a Phrofiad cyffredin o 3 i 16 oed
- tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd- llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- pwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed

- deilliannau cyflawniad sy'n disgrifio cyflawniadau disgwyliedig ym mhob pwynt cyfeirio ar gyfer cynnydd.

Caiff y cwricwlwm ei drefnu'n chwe Maes Dysgu a Phrofiad

- Y celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed)
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg, a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed, ac ieithoedd tramor modern)
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys cyfrifiadureg).

Amserlen

Rydym yn nodi isod y lefel uchel o gerrig milltir allweddol.

2015 - 2016 : Sefydlu rhwydwaith Arloesi

2015 - 2018: Cyfnod cynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd

Gorffennaf 2016: Bydd holl Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd wedi datblygu eu cynlluniau gweithredu unigol

Medi 2016: Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gael

2017 - 2021: Cefnogaeth ymarferol i ysgolion i'w paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd

Gorffennaf 2018: Yn genedlaethol, bydd cynnig dysgu proffesiynol cyson ar gael i holl ymarferwyr ledled Cymru

Medi 2018: Y cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu newydd ar gael

Medi 2021: Y cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu yn eu lle

Mae cynllun i gynllunio a datblygu cwricwlwm newydd a fframwaith asesu wedi'i ddatblygu ar y cyd ag Ysgolion Arloesi a rhanddeiliaid allweddol.

Cyflwyniad

[Diwygio'r cwricwlwm: crynodeb - Ebrill 2016](#) (Maint ffeil: 2.1MB)

Fideos

Mae fideo [o ddisgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr yn holi'r Athro Donaldson](#) i'w weld ar YouTube nawr.

Cysylltu â ni

E-bost: Curriculumforwales@cymru.gsi.gov.uk

LAWRLWYTHO DOGFEN



[Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes](#) (Maint ffeil: 1.1MB)



[Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru](#) (Maint ffeil: 134KB)



[Rhestr o ysgolion Arloesi](#) (Maint ffeil: 240KB)



[Cynllun ar gyfer cynllunio a datblygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu](#) (Maint ffeil: 360KB)